Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad – Tystysgrif ac adroddiad archwyliad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae adroddiad archwyliad cymwysiedig wedi ei gyhoeddi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad. Mae manylion y materion sydd wedi arwain ar y cymhwyster yma isod:

Hysbysiad Pennu Dyddiad i Etholwyr Arfu eu Hawliau

Mae Rheoliadau 16, 17 a 22 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer ymarfer hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nodon ni fod yr Hysbysiad Pennu Dyddiad i Etholwyr Arfu eu Hawliau wedi gadael 16 diwrnod gwaith ar gyfer arolygu cofnodion a llyfrau'r Cyngor. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan fod rhaid i'r Cyngor adael **20 diwrnod gwaith** ar gyfer y cyfnod arolygu.

Nodon ni hefyd fod yr Hysbysiad Pennu Dyddiad i Etholwyr Arfu eu Hawliau dim ond wedi'i hysbysebu am 4 diwrnod yn olynol cyn dechrau'r cyfnod arolygu.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan fod rhaid i'r hysbysiad gael ei hysbysebu am **14 diwrnod yn olynol** cyn dechrau'r cyfnod arolygu.

Yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau fod y cyfnod arolygu yn cael ei hysbysebu'n gywir, a sicrhau fod y nifer cywir o ddyddiau ar gael ar gyfer arolygu.

Yn ogystal â hyn, fe wnaethom nodi mater yn ystod ein hadolygiad, mater yr hoffem dynnu sylw at. Nid ydy hwn yn effeithio ar ein barn archwyliad, ond ddylai'r Cyngor ei gydnabod.

Adran Ailgymeradwyaeth

Nodon ni fod y Cyngor wedi cwblhau yr adran ailgymeradwyo ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) ar y Ffurflen Flynyddol, er nad oedd angen i'r Cyngor newid eu ffigyrau neu newid eu atebion i honiadau ar y Datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau fod yr adran yma ddim yn cael ei lenwi nes bod rhaid.

Yr eiddoch yn gywir,

Grant Thornton UK LLP

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 25 Medi 2018
Cyferinod: WAL098